# Atodiad 6

## Y Bwrdd Cysgodol – Cyd-fentora 2021 – Dechrau a symud ymlaen!

Yn gyntaf, diolch am gymryd rhan yn Rhaglen Cyd-fentora'r Bwrdd Cysgodol. Rydym yn gobeithio y bydd y profiad yn ddefnyddiol ac yn ysbrydoledig. Rydym yma i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar y profiad hwn. Felly, rhowch wybod inni os bydd angen unrhyw beth arnoch drwy gysylltu â equalityintheworkplaceteam@gov.wales

**Cyn inni esbonio sut i ddechrau a'r hyn y gallwch ei wneud cyn eich cyfarfod cyntaf, dyma grynodeb o nod y rhaglen a'r rolau a'r cyfrifoldebau:**

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth ein fforymau gwneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd wedi penderfynu sefydlu Bwrdd Cysgodol a fydd yn cynnwys aelodau amrywiol o staff. Byddant yn cyfarfod ddeuddydd cyn y Bwrdd ac yn trafod papurau'r Bwrdd ac wedyn bydd un o Gydgadeiryddion y Bwrdd Cysgodol yn mynd i gyfarfod y Bwrdd er mwyn rhoi barn y Bwrdd Cysgodol ar bob eitem. Mae hyn yn golygu y caiff syniadaeth y Bwrdd ei hun ei herio gan grŵp o bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein sefydliad.

Sefydlwyd y rhaglen hon er mwyn cefnogi aelodau newydd y Bwrdd Cysgodol a'i Gydgadeiryddion. Caiff pob aelod o'r Bwrdd Cysgodol fentor a fydd yn aelod presennol o'r Bwrdd.

Bydd y gydberthynas fentora yn cynnig cyfle i Aelod o'r Bwrdd Cysgodol ac aelod presennol o'r Bwrdd gynnal sgyrsiau mewn lle diogel ynghylch dod â safbwyntiau newydd i'w profiad bywyd a'u hamrywiaeth a herio rhywfaint o'r syniadaeth o safbwynt amrywiaeth. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynnig cyfleoedd i'r mentor a'r sawl sy'n cael ei fentora ddatblygu a dysgu ar y cyd.

**Disgwylir i gyfarfod gael ei gynnal o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cyflwynir y mentor a'r sawl sy'n cael ei fentora i'w gilydd. Wedyn, dros y 12 mis nesaf, trefnir dau gyfarfod pellach. Gall hyn gael ei drefnu rhwng y ddau barti yn ddiweddarach.**

**Rôl y mentor – Yr Aelod o'r Bwrdd**

- Dylech barchu'r broses fentora a'r sawl sy'n cael ei fentora gennych. Cadwch feddwl agored a byddwch yn barod i ddysgu a siarad am eich gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant a'ch profiad ohonynt.
- Ceisiwch nodi'r gwahaniaethau rhyngddynt a'r bylchau rhwng eich safbwyntiau a'ch profiadau a'u trafod.
- Darparwch wybodaeth am yr heriau y mae uwch-aelodau o staff yn eu hwynebu.
- Rhannwch wybodaeth a phrofiad â'r sawl rydych yn ei fentora er mwyn ei helpu i gyflawni ei nodau gyrfaol a'i rôl fel aelod o'r Bwrdd Cysgodol.
- Byddwch yn barod i ddysgu o brofiadau'r sawl rydych yn ei fentora er mwyn eich helpu gyda'ch datblygiad personol eich hun o ran amrywiaeth a chynhwysiant.
- Helpwch i feithrin proses fentora ddwyffordd.
- Helpwch i greu cydberthynas fentora ddiogel a pharchus.

**Rôl y sawl sy'n cael ei fentora – Yr Aelod o'r Bwrdd Cysgodol**

- Rhowch safbwynt rhywun sydd wedi wynebu heriau gwahanol yn ei fywyd gwaith a'i fywyd personol.
- Soniwch am eich safbwyntiau a'ch profiadau, er enghraifft adegau pan rydych wedi wynebu ymddygiad annymunol a phan rydych wedi herio sylwadau neu weithredoedd annerbyniol – neu os na wnaethoch eu herio a pham?
- Rhannwch syniadau am ffyrdd newydd o weithio.
- Helpwch y mentor i nodi bylchau mewn gwybodaeth ym maes Amrywiaeth a Chynhwysiant a fydd yn helpu gyda'i ddatblygiad personol a dylanwadu ar ei faes gwaith.
- Dylech fod yn glust gyfrinachol i wrando ar feddyliau a syniadau a datrys problemau.

**Rôl y Tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle**

- Gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y rhaglen hon - e-bost equalityintheworkplaceteam@wales.gov os bydd gennych unrhyw gwestiynau yn ystod y broses gyd-fentora o safbwynt mentor neu rywun sy'n cael ei fentora.

**Y Cyfarfod Cyntaf – I'r Mentor a'r Sawl sy'n cael ei Fentora – rhai pwyntiau trafod defnyddiol**

- Mentor – pa wybodaeth y gallwch ei rhannu am y ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithio
- Y Sawl sy'n cael ei Fentora – beth rydych am ei wybod am y Bwrdd.
- Meddyliwch am y ddwy sesiwn fentora arall – pryd y byddant yn cael eu cynnal – beth y byddwch yn ei drafod?
- Pwy fydd yn trefnu'r sesiynau, ble y byddant yn cael eu cynnal? Lleoliadau ffurfiol neu anffurfiol?
- Byddwch yn defnyddio cyswllt rhithwir yn bennaf ond gallwch gael sgwrs dros y ffôn neu hyd yn oed gyfarfodydd wyneb yn wyneb, ar yr amod ei bod yn ddiogel gwneud a bod y naill barti a'r llall yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.
- Beth fydd hyd y sesiynau?
- Beth yw'r protocol ar gyfer cyswllt rhwng sesiynau a drefnwyd os bydd unrhyw faterion yn codi?
- A oes unrhyw beth nad yw'r naill barti neu'r llall yn fodlon ei drafod o fewn y gydberthynas fentora?
- Dylai aelodau o'r Bwrdd Cysgodol hysbysu rheolwyr llinell, lle y bo'n briodol, y byddwch yn cynnal cyfarfodydd
- Sut y byddwch yn mesur llwyddiant?

**Pwyntiau eraill i'w hystyried:**

**I'r Mentor:**

- Beth hoffech chi ei gael o'r gydberthynas? (Canlyniad Mentora)
- Beth y byddwch yn ei wneud fel mentor er mwyn helpu i fanteisio i'r eithaf ar y gydberthynas?

- A ydych yn deall rôl y sawl sy'n cael ei fentora? Beth rydych yn ei ddisgwyl ganddo?
- Beth yw eich disgwyliadau o ran ‘cyfrinachedd’ yng nghyd-destun eich cydberthynas fentora ac a oes unrhyw beth nad ydych yn fodlon ei drafod?
- A fyddwch yn rhannu eich cynnydd neu'ch trafodaethau mentora ag unrhyw un arall y tu allan i'r gydberthynas un i un â'ch mentor?

**I'r Sawl sy'n cael ei Fentora:**

- A oes unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'ch nodwedd warchodedig yr hoffech eu trafod yn ystod y gydberthynas fentora?
- Ystyriwch a oes unrhyw adroddiadau neu ystadegau defnyddiol y gallai fod yn fuddiol eu rhannu â'r sawl rydych yn ei fentora.
- A oes unrhyw fanteision yr hoffech yn benodol eu cael o gyd-fentora neu unrhyw ddeilliannau dysgu o'ch safbwynt eich hun?
- A oes unrhyw wybodaeth y byddwch, o bosibl, am ei rhannu ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau allanol rydych yn perthyn iddynt sy'n ymwneud â'r nodwedd warchodedig rydych yn ei chynrychioli?

**Yr allwedd i lwyddiant:**

Cofiwch fod cyd-fentora yn broses ddwyffordd. Gall y ddau ohonoch ychwanegu gwerth a dysgu oddi wrth eich gilydd.

**Cofiwch fod yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu â'ch gilydd, gwrando'n astud a rhoi adborth adeiladol.**